Annwyl Bawb

E-FWLETIN 27: 22 MEHEFIN 2009

Wedi misoedd tu hwnt o brysur, mae'n dechrau tawelu yma bellach gyda rhai o'r defnyddwyr rheolaidd yn gorffen dros yr haf a llai o gyfarfodydd a phwyllgorau yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, y mae gan y Morlan ddigwyddiadau cyffrous ar y gweill dros yr wythnosau nesaf – yn arbennig felly, arddangosfa o waith Cefyn Burgess.

Bydd yr arddangosfa'n agor ar ddydd Llun, 29 Mehefin ac yn rhedeg tan 25 Gorffennaf. Y mae Cefyn – sy'n cael ei gydnabod bellach fel un o arlunwyr tecstil gorau Prydain – wedi creu darnau newydd o waith yn arbennig ar gyfer yr arddangosfa hon. Lluniau o rai o gapeli'r ardal ydynt – gan gynnwys Capel y Morfa, Bethel a Chapel Seion. Ceir hefyd enghraifft o un o'i garthenni trawiadol a detholiad o waith wedi'u seilio ar gapeli Lerpwl ac America.

Ar nos Lun, 13 Gorffennaf, bydd Cefyn yn y Morlan yn trafod ei waith a sôn am yr hyn sy'n ei ysbrydoli ac yn dylanwadu arno. Bydd y noson hon yn cychwyn am 7.00 – mynediad am ddim. Rydym hefyd yn gobeithio trefnu sgwrs ar *"Hanes Anghydffurfiaeth yn Aberystwyth"* yn ystod y mis – manylion pellach i ddilyn.

Mae gennyf ddau gais am gymorth:

- mae Cefyn yn ceisio casglu llestri o gymaint o gapeli â phosib (y rhai gydag enw'r capel arnynt). Os oes gennych lestr o'r fath y gallwch ei sbario – boed hwnnw'n gwpan a soser neu'n jwg llaeth – beth am ei gyfrannu at gasgliad Cefyn. Mae pob croeso i chi ddod â'r llestri draw i'r Morlan unrhyw bryd – mi fyddai'n ddiolchgar iawn.
- yr ydym hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i 'stiwardio' yn ystod oriau agor yr arddangosfa (10.00-12.00 & 2.00-4.00). Os oes gennych ychydig o oriau i'w sbario yn ystod y mis ac yn gallu ein cynorthwyo, plîs cysylltwch. Diolch.

Nodir manylion y noson arall y mae Morlan yn ei threfnu isod ynghyd â rhai digwyddiadau eraill sydd ymlaen yma:

***CHASING RAINBOWS* (Theatr Hijinx)**
7.30, nos Fercher, 1 Gorffennaf
Drama newydd gan Glenys Evans am gael eich derbyn a'ch cynnwys o fewn cymdeithas. Mae'n ddrama ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu a'u cymuned. Gadawodd ddrama ddiwethaf Glenys Evans argraff fawr ar bawb a'i gwelodd felly peidiwch â cholli'r cyfle i weld hon. Tocynnau: £6 (gost: £4) ac ar gael nawr o'r Morlan.

SHELTER CYMRU: GWERTH GWYBODAETH I GYMUNEDAU GWLEDIG
11.00-2.00, dydd Mercher, 24 Mehefin
Ydych chi eisiau rhoi eich cymuned ar ben ffordd? Yn y digwyddiad hwn cewch wybodaeth am dai, dyled, buddiannau lles a lles cefn gwlad ynghyd â gwybodaeth am wasanaethau, prosiectau a mentrau eraill o safon er mwyn eich helpu i greu cymuned well.

FFORWM 50+ Aberystwyth
2.00-5.00, dydd Mercher, 24 Mehefin
Cyfarfod misol i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Iau, 2 Gorffennaf (ac nid dydd Mawrth, 30 Mehefin fel y nodwyd yn flaenorol)
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan ddiwedd y flwyddyn.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr